

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

COFNODION Y CYNGOR YSGOL

Dyddiad y cyfarfod – Hydref 14eg 2013

Amser – 10:00yb

Lleoliad – Neuadd yr ysgol

Preseennol

*Mrs Williams, Mrs Llwyd,
Gwenno Jobbins, Math Williams,
Rhodri Davies, Glesni Jones,
Osian Williams, Mirain Gregory,
Lili-Gwen O'Brien, Gwion Hefin,
Lili Davies, Lloyd Ellis-Jones,
Mari Hefin (cynrychiolydd y Pwyllgor Eco),
Megan Ystwyth (cynrychiolydd y Pwyllgor Craffu Safonau),
Mr Arwel Thomas (aelod o'r Llywodraethwyr), Mr Williams.*

Agenda

1. Cynrychiolwyr yn esbonio gwaith y pwyllgorau disgyblion wrth weddill y Cyngor Ysgol a Mr Arwel Thomas (aelod o'r Llywodraethwyr).

Bu cynrychiolwyr pob un o bwyllgorau disgyblion B1.5 a 6 yn esbonio'n fras yr hyn mae eu pwyllgor nhw wedi'i drafod a'i gyflawni ers cael ei sefydlu, gan gyfeirio at gofnodion eu pwyllgor (*Lloyd – Pwyllgor Eco, gyda help Mari Hefin*), (*Osian - Pwyllgor Iechyd a Ffitrwydd*), (*Rhodri - Pwyllgor Taclo'r Toiledau*), (*Gwion - Pwyllgor Dyngarol*), (*Glesni - Pwyllgor Iechyd a Diogelwch*), (*Lili Gwen - Pwyllgor Gorau Chwarae Cyd Chwarae*), (*Lili Davies - Pwyllgor Craffu safonau, gyda help Megan Ystwyth*), (*Mirain – Pwyllgor Pin Mewn Papur*). Diolchodd Gwenno, Cadeirydd y Cyngor Ysgol, a Mr Williams i bawb am eu gwaith caled o fewn eu pwyllgorau gan fod tipyn wedi cael ei gyflawni ers dechrau'r tymor.

2. Unrhyw Faterion Eraill

Edrychodd Gwenno ym Mluch Syniadau'r Cyngor Ysgol er mwyn gweld os oedd unrhyw awgrymiadau ar sut i wella'r ysgol yno. Cafwyd un awgrym – y dylid cael tîm rygbi merched ym M1.5 a 6. Penderfynwyd y byddai Osian yn cyflwyno'r cais i'w bwyllgor ef, sef y Pwyllgor Iechyd a Ffitrwydd, yn eu cyfarfod nesaf.

Diolchodd Gwenno i bawb am ddod.

Cyfarfod yn gorffen – 10:45yb.

Gwefan
www.ysgolgymraeg.com



e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

Dyddiad y Cyfarfod nesaf

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd dydd Gwener, 13eg o Fedi 2013

Cofnodion gan Glesni a Gwenno (Ysgrifennydd a Chadeirydd).